# Canllaw ar gyfer Cofrestrau Achrededig

## Canllaw atodol - Safon Un

Gorffennaf 2021

professional™ standards authority
accredited register

professional standards authority

# 1. Cyflwyniad

1.1 Nod y canllaw hwn yw sefydlu rhagor o wybodaeth ynghylch sut fyddwn ni'n asesu sefydliadau sy'n ymgeisio am achrediad, a Chofrestrau Achrededig sy'n mynd trwy asesiadau adnewyddu, yn erbyn Safon Un ein *Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig*.

1.2 Mae Safon Un wedi ei rhannu yn ddwy ran, fel y sefydlir yn y blwch isod.

**Safon Un: Cymhwyster a lles y cyhoedd**

***Mae'r sefydliad yn cadw cofrestr o bobl mewn rolau iechyd ac/neu ofal cymdeithasol nad ydynt yn amodol i reoleiddio statudol.*** **Mae'r gweithgareddau a gyflawnir gan rai sydd wedi cofrestru yn fuddiol i iechyd ac/neu les y cyhoedd ac mae modd cyfiawnhau a lliniaru ar gyfer unrhyw niwed*.***

*1a) Cymhwyster y gofrestru dan ein deddfwriaeth*

Byddwn yn penderfynu os yw'r gofrestr yn dod dan gwmpas ein pwerau achredu fel y sefydlwyd yn Neddf 2002, gan gyfeirio at y diffiniad o "gofrestr wirfoddol" a sefydlwyd yn Adran 25E. Mae hyn yn cynnwys na ddylai fod angen i'r rôl (neu rolau) a gofrestrir fod wedi eu cofrestru dan y gyfraith er mwyn defnyddio teitl, i ymarfer fel aelod o broffesiwn, neu i gymryd rhan mewn gwaith sy'n golygu darparu gofal iechyd, neu ofal cymdeithasol (yn Lloegr).

*1b) Ystyriaeth lles y cyhoedd*

Byddwn yn penderfynu os yw'n debygol i fod er budd pennaf cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd i achredu cofrestr, gan ystyried y mathau o weithgareddau a arferir gan y rhai sydd wedi cofrestru. Bydd hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i ystyriaeth o'r canlynol:

i. Tystiolaeth bod y gweithgareddau a gyflawnir gan rai sydd wedi cofrestru yn debygol o fod yn fuddiol.

ii. Tystiolaeth y gellir cyfiawnhau unrhyw niwed neu risgiau sy'n debygol o ddeillio o'r gweithgareddau hyn ac y'i lliniarir yn briodol gan ofynion y gofrestr ar gyfer cofrestriad.

iii. Ymroddiad i sicrhau bod yr holl driniaethau a gwasanaethau yn cael eu cynnig mewn modd nad yw'n gwneud hawliadau heb eu profi nac yn camarwain y cyhoedd mewn unrhyw fodd.

I fodloni Safon Un, byddwn angen sicrhad y gellir lliniaru ar gyfer unrhyw niwed neu risg sy'n debygol o godi o'r gweithgareddau gan ofynion y gofrestr ar gyfer rhai sydd wedi cofrestru, ac nad ydynt yn drech na'r buddion tebygol i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd. Os bodlonir Safon Un, yna bydd y mesurau lliniaru hyn yn cael eu profi ymhellach yn ystod yr asesiad o Safonau Dau i Wyth cyn dyfarnu achrediad.

1.3 Mae Safon 1a wedi bod yn ofyniad ers sefydlu'r rhaglen am y tro cyntaf yn 2013. Cyflwynwyd Safon 1b yng Ngorffennaf 2021, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus[1] i gasglu barnau ar os, a sut, y dylem bennu cwmpas y rhaglen. Mae'r adroddiad o ganlyniadau'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan.[2]

1.4 Canfu'r ymgynghoriad bod yna dipyn o gefnogaeth yn gyffredinol i ni roi mwy o ystyriaeth i dystiolaeth o effeithlonrwydd (neu effeithiolrwydd) yn ein penderfyniadau achredu. Roedd hyn yn arbennig o wir gyda grwpiau cleifion a'u haelodau a ymatebodd i'n hymgynghoriad. Wedi adolygu'r ymatebion, fe benderfynom ddiweddaru ein safonau i roi mwy o ystyriaeth i risgiau a buddion gwasanaethau a ddarperir gan rai sydd wedi cofrestru. Credwn y bydd hyn yn helpu sicrhau bod ein Nod Ansawdd, y gall y Cofrestrau a achredir gennym a'u hymarferwyr eu defnyddio, yn glir a bod y cyhoedd yn ei ddeall.

1.5 Nid yw o fewn ein cylch gwaith i benderfynu pa wasanaethau ddylai cleifion a'r cyhoedd eu dewis. Fodd bynnag, ein diben hollgwmpasog fel y sefydlwyd yn Neddf 2002 yw diogelu'r cyhoedd. Er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau o achredu cofrestrau ar gyfer rolau ble nad oes gofyniad i gofrestru gyda chorff statudol, credwn ei bod yn bwysig i ni ystyried y risgiau sy'n codi o'r gweithgareddau a gyflawnir gan y rhai sydd wedi cofrestru, yn ogystal â'r buddion.

1.6 Mae Safon 1b yn darparu mecanwaith ar gyfer y prawf 'lles y cyhoedd' yma. Mae'n ein galluogi i wneud dyfarniad o ran os yw buddion y gweithgareddau a gyflawnir gan y rhai sydd wedi cofrestru yn drech na'r risgiau, ac os yw'r gofrestr a'r rhai sydd wedi cofrestru yn darparu gwybodaeth glir a chywir parthed y buddion a'r risgiau hyn.

# 2. Sut fyddwn ni'n asesu Safon 1a

2.1 Byddwn yn penderfynu os yw'r gofrestr yn dod dan gwmpas ein pwerau achredu fel y sefydlwyd yn y Ddeddf, gan gyfeirio at y diffiniad o 'gofrestr wirfoddol' a sefydlwyd yn Adran 25E. Mae hyn yn cynnwys na ddylai fod angen i'r rôl (neu rolau) a gofrestrir fod wedi eu cofrestru dan y gyfraith er mwyn defnyddio teitl, neu i ymarfer fel aelod o broffesiwn, neu i gymryd rhan mewn gwaith sy'n golygu darparu gofal iechyd, neu ofal cymdeithasol (yn Lloegr).

# 3. Sut fyddwn ni'n asesu Safon 1b

3.1 Rhaid i gofrestrau fodloni Safon Un er mwyn bod yn gymwys i gael eu hasesu yn erbyn y Safonau sy'n weddill. Fel y sefydlwyd yn ein *Canllaw i'r Broses Ymgeisio,* yn ystod asesiad cychwynnol gall Cofrestr ymgeisio i gael ei hasesu yn erbyn Safon Un cyn mynd ymlaen i'r cais llawn.

3.2 Bydd cofrestrau sydd eisoes wedi achredu yn cael eu hasesu yn erbyn Safon Un o leiaf unwaith pob tair blynedd, fel y sefydlir yn ein *Canllaw ar gyfer Cofrestrau Achrededig*. Mae hyn yn ein galluogi i wirio os yw unrhyw

[1] https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/consultation-response/our-consultation/2020-accredited-registers-consultation/authority-consultation-on-the-future-shape-of-the-accredited-registers-programme.pdf?sfvrsn=69067620_13
[2] https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/accredited-registers/consultation/authority-report-on-the-future-shape-of-the-accredited-registers-programme-consultation-results.pdf?sfvrsn=2d84920_6

newidiadau i’r amgylchedd allanol, neu i redeg y Gofrestr, wedi effeithio ar os bodlonir Safon Un.

3.3 Byddwn yn casglu tystiolaeth yn erbyn Safon 1b yn rhan o'r cais cychwynnol, monitro blynyddol neu asesiadau adnewyddu. Bydd ein dull ar gyfer asesu tystiolaeth yr un fath ar gyfer y naill fath o asesiad, er ar gyfer Cofrestrau sydd eisoes wedi achredu, bydd ein hasesiad yn ffocysu ar newidiadau ers yr adolygiad blaenorol yn erbyn Safon 1b.

3.4 Byddwn yn casglu tystiolaeth yn erbyn pob un o'r tri maen prawf ar gyfer Safon 1b, fel isod:

i. Tystiolaeth bod y gweithgareddau a gyflawnir gan rai sydd wedi cofrestru yn debygol o fod yn fuddiol.

ii. Tystiolaeth y gellir cyfiawnhau unrhyw niwed neu risgiau sy'n debygol o ddeillio o'r gweithgareddau hyn ac y’i lliniarir yn briodol gan ofynion y gofrestr ar gyfer cofrestriad.

iii. Ymroddiad i sicrhau bod yr holl driniaethau a gwasanaethau yn cael eu cynnig mewn modd nad yw'n gwneud hawliadau heb eu profi nac yn camarwain y cyhoedd mewn unrhyw fodd.

### *Mathau o dystiolaeth*

3.5 Bydd y mathau o dystiolaeth y gellir eu hystyried ar gyfer i) a ii) yn cynnwys deunydd a gesglir gan ffynonellau yn cynnwys y Gofrestru, rhanddeiliaid rwy ein proses ‘Rhannu eich Profiad’, ac ymchwil a data a gyhoeddir gan gyrff eraill. Ar gyfer iii), prif ffynonellau'r dystiolaeth fydd ein gwiriadau ein hunain o wefan y Cofrestrau, ac o wefannau y rhai sydd wedi eu cofrestru a chyfathrebiadau eraill.

3.6 Bydd y mathau o dystiolaeth y byddwn yn adolygu yn cynnwys ffynonellau ansoddol a meintiol. Nid ein rôl ni yw penni p’un a yw’r ffynonellau hyn yn ddiffiniol. Nid yw ychwaith yn rôl i ni gyflawni na chomisiynu ymchwil ar effeithiolrwydd gweithgareddau iechyd neu ofal cymdeithasol. Er mwyn cwblhau asesiad yn erbyn Safon 1b, byddwn felly'n gwneud defnydd o ffurfiau allanol o ymchwil a data a bydd angen ystyried casgliadau'r cyrff awdurdodol sy'n gyfrifol am adolygu tystiolaeth yn gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol.

3.7 Ar gyfer nifer o Gofrestrau, efallai y bydd yr asesiad hwn yn syml. Ar gyfer cofrestrau i’r rhai sy'n darparu gwasanaethau o fewn gofal prif ffrwd, confensiynol, megis o fewn y gweithlu’r GIG, mae’n debygol y bydd cyrff cyfredol o dystiolaeth sydd wedi eu hadolygu'n annibynnol. Ar gyfer meysydd eraill, efallai y bydd y dystiolaeth yn llai clir.

3.8 Mae nodweddion sefydliadau y byddem yn eu hystyried i fod yn gyrff awdurdodol ar gyfer ein dibenion wrth gasglu ac adolygu tystiolaeth ynghylch buddion a niwed yn cynnwys:

- Sefydliadau annibynnol, dielw sy'n rhydd o nawdd masnachol a gwrthdaro buddiannau eraill. Enghraifft o hyn fyddai Cochrane.
- Cyrff sy'n arbenigo mewn cynhyrchu canllawiau a chyngor seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Byddai enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys Rhwydwaith Canllawiau Rhyng-golegol yr Alban, neu’r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.

- Sefydliadau a sefydlwyd i hyrwyddo iechyd a lles sy'n gallu arddangos atebolrwydd. Byddai enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), a Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).

3.9 Mae’r mathau hyn o gyrff yn rhannu ymroddiad i ymgynghori â rhanddeiliaid, atebolrwydd a thryloywder o ran sut maent yn cyflawni eu nodau. Mae eu gwaith yn berthnasol i ni ei ystyried, gan ei fod yn ein galluogi i ystyried amrediad ehangach o arbenigedd a safbwyntiau ynghylch iechyd a gofal cymdeithasol fel fo'n berthnasol i’r Gofrestr nag y byddai'n bosibl i ni gasglu trwy ein hadnoddau ein hunain yn unig.

3.10 Mae’r rhaglen Cofrestrau Achredig yn berthnasol ar draws y Deyrnas Unedig. Byddwn yn ystyried tystiolaeth sy'n berthnasol i'r Deyrnas Unedig gyfan oni bia bod Cofrestr yn gweithredu o fewn tiriogaeth gyfyngedig.

3.11 Ni fyddwn yn cyfyngu ar y mathau o dystiolaeth y byddwn yn ystyried, ond byddwn yn categoreiddio'r dystiolaeth yn ôl ei nodweddion, i helpu ein hasesiad. Ceir disgrifiad o'r categorïau hyn yn y tabl isod. Gall y rhain fod yn berthnasol i ffynonellau ansoddol a meintiol:

| | **Tystiolaeth gryfach** | **Tystiolaeth gymedrol** | **Tystiolaeth wannach** |
|---|---|---|---|
| **Nodwedd(ion)** | Astudiaeth wyddonol o ansawdd uchel.<br>Wedi ei gyhoeddi ac wedi derbyn ystyriaeth gan randdeiliaid ehangach.<br>Yn defnyddio ffynonellau cydnabyddedig o ddata, ble fo'n berthnasol.<br>Wedi ei gyflawni'n annibynnol gan gorff heb fudd yn y canlyniad.<br>Wedi ei gadarnhau gan sawl ffynhonnell o dystiolaeth ac/neu ddata.<br>Cynrychiolir gwahanol farnau yn deg. | Yn rhannu rhai o’r nodweddion o dystiolaeth ‘gryfach’ ond nid yw wedi ei ddilysu gan ffynonellau annibynnol i’r un graddau. | Hanesion neu farnau annibynnol.<br>Ymchwil neu adolygiadau nad ydynt wedi ei dilysu'n wrthrychol. |
| **Esiampl(au)** | Adolygiadau systematig.<br>Papurau ymchwil a adolygwyd gan gyfoedion. | Arolygon o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi eu cyflawni gan sefydliad annibynnol. | Arolygon aelodau cyfyngedig wedi eu cyflawni gan gymdeithas broffesiynol (nad ydynt wedi eu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ymchwil ac adolygiadau a gomisiynwyd yn annibynnol (e.e. gan sefydliad academaidd).<br>Data dibynadwy ar ganlyniadau a adroddwyd gan gleifion. | | dilysu'n annibynnol). |

### *Asesu'r dystiolaeth*

3.12 Byddwn yn defnyddio system raddio Coch/Ambr/Gwyrdd (CAG) i asesu tystiolaeth ar gyfer Rhannau i-iii. Mae'r tabl isod yn sefydlu disgrifiad ar gyfer pob un o'r graddau CAG.

| | **i. Tystiolaeth bod y gweithgareddau a gyflawnir gan rai sydd wedi cofrestru yn debygol o fod yn fuddiol.** | **ii. Tystiolaeth y gellir cyfiawnhau unrhyw niwed neu risgiau sy'n debygol o ddeillio o'r gweithgareddau hyn ac y'i lliniarir yn briodol gan ofynion y Gofrestr ar gyfer cofrestriad.** | **iii. Ymroddiad i sicrhau bod yr holl driniaethau a gwasanaethau yn cael eu cynnig mewn modd nad yw'n gwneud hawliadau heb eu profi nac yn camarwain y cyhoedd mewn unrhyw fodd.** |
|---|---|---|---|
| Gwyrdd | Mae cyrff awdurdodol wedi casglu ar sail ymchwil ac adolygiadau gwrthrychol ac annibynnol fod y gweithgareddau yn fuddiol ac/neu effeithiol i iechyd a lles. | Mae unrhyw niwed neu risgiau sy'n deillio o'r gweithgareddau yn isel ac y gellir delio â nhw trwy ofynion y Gofrestr ar gyfer cofrestriad. | Mae cyfathrebiadau gan y gofrestr a'r rhan fwyaf o'r rhai sydd wedi eu cofrestru yn glir a chywir, nid ydynt yn gwneud honiadau na ellir eu profi, ac maent yn unol â hysbysebion a gofynion safonau masnach perthnasol. |
| Ambr | Rhywfaint o dystiolaeth y gallai gweithgareddau fod yn fuddiol, ond yn debygol o ddibynnol ar fesurau canlyniadau a adroddwyd gan gleifion neu dystiolaeth eilaidd. | Mae gan y niwed a risgiau sy'n deillio o'r gweithgareddau botensial i achosi niwed corfforol, meddyliol, ariannol neu arall arwyddocaol, ond gellir lliniaru ar gyfer hyn trwy ofynion y Gofrestr ar gyfer cofrestriad. | Mae angen sefydlu camau pellach i sicrhau bod y Gofrestr a'r rhai a gofrestrir yn darparu gwybodaeth glir a chywir ynghylch triniaethau o fewn cyfnod penodol o amser. |
| Coch | Ychydig iawn neu ddim tystiolaeth fod gan weithgareddau fuddion profadwy o ran iechyd ac/neu les, ac/neu nid yw'r gweithgaredd wedi ei argymell i'w ddefnyddio gan gorff awdurdodol. | Mae'r gweithgareddau yn debygol o fod yn anghyfreithlon ar sail niwed corfforol neu feddyliol, gwahaniaethu neu reswm arall. | Mae Cofrestr wedi â chymryd camau priodol i sicrhau bod cyfathrebu ganddi a'i unigolion cofrestredig yn glir a chywir, ac mae yna risg materol o gamarwain y cyhoedd. |

3.13 Sefydlir rhagor o fanylion ynghylch sut fyddwn ni'n pennu'r graddiad CAG ar gyfer Rhannau i-iii isod.

### *Rhan i): Asesu'r buddion*

3.14 Bydd angen i gofrestr ddarparu tystiolaeth o sut mae’r gweithgareddau a gofrestrwyd yn darparu budd i iechyd ac/neu les y cyhoedd. Gallai'r buddion gynnwys y mathau canlynol:

a. Iachaol – gallu iachau salwch neu gyflwr penodol.

b. Diagnostig – gallu diagnosio salwch neu gyflwr penodol.

c. Lliniarol – nid yw'n diagnosio nac iachau, ond yn darparu rhyddhad o symptomau salwch neu gyflwr, gan gynnwys o driniaeth gonfensiynol.

d. Ataliol – yn helpu atal problemau iechyd neu ddeilliannau cymdeithasol gwael.

e. Llesiant – yn cefnogi ansawdd bywyd positif o safbwynt iechyd emosiynol, meddyliol ac/neu gorfforol.

3.15 Ar ymgeisio am achrediad, yn cynnwys adnewyddu, byddwn yn gofyn i'r gofrestr sefydlu’r manteision mae’n eu cysylltu â gweithgareddau y rhai a gofrestrir. Bydd cyfrifoldeb dros ddarparu’r dystiolaeth orau posibl o’r buddion hyn yn nwylo’r Gofrestr. Bydd baich y profi yn nwylo'r Gofrestr – h.y., bydd angen iddynt ddangos bod yr hawliad o fudd yn fwy tebygol o fod yn wir nag yw i fod yn anwir. Byddwn yn adolygu tystiolaeth a ddarperir gan y Gofrestr neu unrhyw ffynhonnell arall i hysbysu ein barn, fel y sefydlir isod.

3.16 Byddwn yn rhoi gwybod i'r Gofrestr sut ydyn ni wedi categoreiddio'r dystiolaeth mae’n darparu ynghylch buddion, gan gyfeirio at y tabl ym mharagraff 3.11.

### *Rhan ii): Asesu’r risgiau o niwed*

3.17 Mae yna risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw fath o weithgaredd iechyd neu ofal. Mae hyn yr un mor wir ar gyfer gweithgareddau sy'n gofyn am gofrestriad yn ôl y gyfraith â’r rhai nad ydynt. Gall meddyginiaethau confensiynol achosi sgìl effeithiau arwyddocaol a allai achosi niwed yn ogystal â buddion, a rhaid i benderfyniadau am driniaeth bwyso a mesur y niwed a buddion posibl, yn ogystal ag ystyriaethau eraill fel cost.

3.18 Er y bydd y triniaethau a gynigir gan ymarferwyr Cofrestr Achrededig yn gyffredinol yn cael eu hystyried i fod o risg is na’r rhai sy'n amodol i reoleiddio statudol, fe fydd yna risgiau o niwed yn gysylltiedig â nhw o hyd. Mae’r mathau o niwed yr ystyriwn i fod yn berthnasol i ddefnyddwyr Cofrestrau Achrededig fel fo'n berthnasol i Safon 1b yn cynnwys y rhai’n deillio o:

a. Weithgareddau’r rhai sydd wedi cofrestru, yn cynnwys y triniaethau a ddarperir.

b. Defnyddio gwasanaethau’r rhai sydd wedi cofrestru fel dewisiadau amgen i feddyginiaeth gonfensiynol, gan arwain at driniaeth amhriodol ar gyfer cyflyrau meddygol.

c. Niwed ariannol sy'n gysylltiedig â gwneud honiadau di-sail ynghylch triniaethau.

3.19 Pan fydd Cofrestr yn ymgeisio am achrediad, byddwn yn gofyn iddi gwblhau ein matrics risg i nodi’r niweidiau penodol mae’n ystyried allai godi o ymarfer ei gofrestryddion. Byddwn yn gofyn iddi ddarparu manylion y mesurau lliniaru sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn, fel hyfforddiant a chanllaw ar gyfer y rhai sydd wedi cofrestru.

3.20 Unwaith y bydd cofrestr wedi cwblhau'r matrics risg, byddwn yn adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd i ni yn ystod y broses Rhannu eich Profiad, a gan ffynonellau eraill a nodwyd yn ystod ein hadolygiad fel rhai perthnasol. Byddwn yn gofyn i'r Gofrestr ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch unrhyw risgiau pellach a nodir gennym.

3.21 Fel gyda'n hasesiad o fuddion, byddwn yn chwilio am y dystiolaeth sy'n ategu nodi risg a mesurau lliniaru. Os bydd Cofrestr yn bodloni Safon 1b yn ystod y cais cychwynnol, byddwn yn profi'r mesurau lliniaru sydd ar waith ymhellach trwy ein hasesiad o'r Safonau sy'n weddill. Os byddwn yn canfod tystiolaeth nad yw'r mesurau lliniaru yn ddigon cadarn i ddarparu lliniariad effeithiol, yna gallwn adolygu ein penderfyniad cynharach na fodlonwyd Safon 1b.

*Rhan iii): Asesu'r ymroddiad i ddarparu gwybodaeth gywir am driniaethau a gwasanaethau*

3.22 Mae'n bwysig bod Cofrestr a'i haelodau cofrestredig yn darparu gwybodaeth glir a chywir ynghylch y triniaethau a gwasanaethau a ddarperir. Dim ond os gellir eu cefnogi gyda thystiolaeth y dylid gwneud unrhyw honiadau am fuddion.

3.23 Mae'r Asiantaeth Safonau Hysbysebu (ASA) yn cyhoeddi Cod y Deyrnas Unedig ar gyfer Hysbysebion nad ydynt wedi eu Darlledi a Marchnata Uniongyrchol a Hyrwyddo (Cod CAP). Dyma'r llyfr rheolau ar gyfer hysbysebion nad ydynt wedi eu darlledu, hyrwyddiadau gwerthiant a chyfathrebiadau marchnata uniongyrchol. Mae'r Cod CAP yn darparu canllaw penodol ynghylch rhai gwasanaethau sy'n berthnasol i'r rhaglen Cofrestrau Achrededig, megis rhai triniaeth gyflenwol ac amgen (CAMs). Bydd yn rhaid i ni ystyried y Cod CAP ble fo'n berthnasol, ond heb fod wedi ein cyfyngu iddo, os byddwn yn nodi meysydd ble credwn fod hawliadau'n cael eu gwneud heb dystiolaeth.

3.24 Ein prif dystiolaeth ar gyfer asesu yn erbyn Rhan iii) fydd ein gwiriadau ein hunain o wefan a chyfryngau cymdeithasol y Gofrestr, a rhai'r unigolion sydd wedi cofrestru gan fod nifer o ymarferwyr annibynnol yn hyrwyddo gwasanaethau ar-lein. Byddwn hefyd yn ystyried tystiolaeth arall os down yn ymwybodol o honiadau camarweiniol trwy ein Rhannu eich Profiad neu ffrydiau eraill.

### *Pwyso a mesur y manteision a'r risgiau*

3.25 Unwaith y byddwn wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ac wedi gwneud asesiad yn erbyn Rhannau i-iii, byddwn yn rhannu ein casgliadau gyda'r Gofrestr i wirio ar gyfer cywirdeb ffeithiol.

3.26 Ar yr adeg hon, byddwn hefyd yn rhannu'r Asesiad Effaith gyda'r Gofrestr. Mae'r Asesiad Effaith yn ddogfen fyw ac fe'i defnyddir i gasglu gwybodaeth ynghylch sut gallai gwahanol grwpiau fod wedi eu heffeithio gan y penderfyniad i achredu Cofrestr. Bydd gwybodaeth a gesglir ar gyfer Safon Un yn bwynt cychwyn defnyddiol ar gyfer hyn. Ceir rhagor o wybodaeth am yr Asesiad Effaith yn ein *Canllaw i'r Asesiad Effaith*.

3.27 Bydd y penderfyniad o ran os bydd Safon 1b wedi ei bodloni dros dro yn cael ei wneud yn yr achos cyntaf gan y Tîm Achredu.

3.28 Ar gyfer y penderfyniadau hynny ble mae'n llai amlwg os yw buddion y gwasanaethau a ddarperir gan y rhai sydd wedi cofrestru yn drech na'r risgiau, bydd y Tîm Achredu yn gwneud argymhelliad i Banel ei ystyried. Bydd yr argymhelliad yn cael ei ddarparu i'r Gofrestr cyn i'r Panel gwrdd. Bydd graddiad

‘coch’ neu ‘ambr’ yn unol â’r tabl ym mharagraff 3.12 ar gyfer Rhan i, ii neu iii yn creu angen awtomatig am Banel.

3.29 Os yw'n gais newydd, yna’r dewisiadau ar gael i’r Panel fydd:

a. I bennu bod Safon 1b wedi ei bodloni dros dro, yn amodol i fodloni’r Safonau sy'n weddill, oherwydd yr ystyrir bod buddion gwasanaethau’r ymarferwyr yn drech na'r risgiau.

b. I bennu bod Safon 1b heb ei bodloni, gan nad oes digon o dystiolaeth bod buddion gwasanaethau’r ymarferwyr yn drech na'r risgiau.

c. I ofyn am ragor o wybodaeth, i gynnwys barn arbenigol annibynnol ac/neu gyngor cyfreithiol.

# Rheolaeth Dogfen

## Rheolaeth Fersiwn

Nid yw dogfennau a argraffwyd wedi eu rheoli. Mae'r ddogfen hon yn ddilys ar y diwrnod y'i
hargraffwyd yn unig.

| Fersiwn | Statws | Disgrifiad o'r Fersiwn | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|
| 1.0 | | Gweithdrefn newydd | X Gorffennaf 2021 |
| | | | |
| | | | |
| | | | |